Archwilio Cymru
Audit Wales

# Disgrifiad o’r Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd** | Hyfforddai Graddedig |
| **Adroddiadau i** | Rheolwr Archwilio |
| **Lleoliad** | Cymru |
| **Band cyflog** | Hyfforddai |
| **Clirio Lefel Diogelwch** | CTC |

## Disgrifiad o’r swydd

### Diben y Swydd

- Gan weithio fel rhan o dîm cefnogol, byddwch yn cymryd rhan mewn archwiliad allanol o ystod o gyrff sector cyhoeddus Cymru, gan gynnwys llywodraeth leol, cyrff y GIG a Llywodraeth Cymru a'i sefydliadau noddedig a chysylltiedig.
- Byddwch yn hyfforddi i ennill cymhwyster cyfrifyddu lefel 7 cydnabyddedig Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW) (ACA).
- Byddwch yn cymryd rhan mewn cymhwyster Arweinyddiaeth a Rheolaeth achrededig yr ILM, Lefel 3.

### Prif Ddyletswyddau

- Cwblhau'r cymhwyster ICAEW yn llwyddiannus gan gynnwys diweddaru eich ffeil hyfforddi ICAEW yn rheolaidd a chymryd rhan mewn cyfarfod adolygu ICAEW bob 6 mis.
- Cwblhau'r cymhwyster ILM yn llwyddiannus o fewn yr amserlenni rhagnodedig.
- Cynorthwyo i gyflawni gwaith archwilio ariannol a gwerth am arian mewn Cyrff Archwiliedig yn unol â safonau Swyddfa Archwilio Cymru.
- Gweithio fel rhan o dîm i gwblhau neu gynorthwyo i gwblhau tasgau archwilio yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.
- Gweithio fel rhan o dîm prosiect sy'n cyfrannu at ymchwil a chasglu data a dadansoddi data.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r rôl.

### Prif Feysydd Canlyniadau

- Cefnogi’r gwaith o gyflawni gweithgareddau archwilio i amser, cyllideb ac ansawdd.
- Cwblhau gofynion cymhwyster a ffeiliau hyfforddi ICAEW yn llwyddiannus yn unol â rheoliadau ICAEW a'r cytundeb hyfforddi.
- Cwblhau'r cymhwyster ILM yn llwyddiannus o fewn yr amserlen ragnodedig.
- Bod yn esiampl ar gyfer gwerthoedd ac ymddygiad Archwilio Cymru.

| Cyffredinol |
|---|
| **Ein Gwerthoedd a'n hymddygiad** |
| Mae ein gwerthoedd a'n hymddygiad yn diffinio'r ffordd rydym ni'n gweithio a sut rydym ni'n gweithio gyda'n gilydd i gyflawni ein nodau. Mae pob un o'n pobl wedi ymrwymo'n llwyr i ddangos ein gwerthoedd a'n hymddygiad, fel y gallwn weithio'n effeithiol gyda'n gilydd a gwneud penderfyniadau da. Maen nhw'n ein helpu i fod y gorau y gallwn fod ac yn sicrhau bod gennym y sgiliau a'r profiadau cywir yn y lle cywir. Mae ein gwerthoedd a'n hymddygiad wedi'u cynllunio gan staff er mwyn helpu i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu a datblygu diwylliant hyfforddi i sicrhau amodau ffyniannus ar gyfer llwyddiant sefydliadol. Gofynnwn i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfrannu'n llawn at feithrin diwylliant cadarnhaol ac i'n helpu i dyfu drwy fyw ein gwerthoedd a'n hymddygiad. |
| **Cyfrinachedd a Diogelwch Gwybodaeth** |
| Rhaid i ddeiliad y swydd, fod yn ymwybodol, ar bob adeg, o bwysigrwydd cadw cyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth a geir wrth ymgymryd â'i ddyletswyddau. Mewn llawer o achosion, bydd hyn yn cynnwys mynediad at wybodaeth bersonol sy'n ymwneud â defnyddwyr gwasanaethau. Rhaid i ddeiliad y swydd drin yr holl wybodaeth, boed yn gorfforaethol neu'n ymwneud â chleient, mewn modd cynnil a chyfrinachol yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 2018, GDPR y DU a pholisi sefydliadol. Ystyrir bod unrhyw achos o dorri cyfrinachedd o'r fath yn dramgwydd disgyblu difrifol, y gellir ei gosbi drwy ddiswyddo a/neu erlyn dan ddeddfwriaeth statudol gyfredol (Y Ddeddf Diogelu Data) a Pholisi Disgyblu Archwilio Cymru. |
| **Cydraddoldeb** |
| Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn gosod dyletswydd gadarnhaol ar gyrff cyhoeddus i hybu cydraddoldeb i bobl â nodweddion gwarchodedig, fel cyflogwr ac fel darparwr gwasanaethau cyhoeddus. Ceir naw nodwedd warchodedig: oedran; anabledd; ailbennu rhyw; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Archwilio Cymru yn ymrwymedig i sicrhau nad yw'r un ymgeisydd am swydd na chyflogai'n cael triniaeth lai ffafriol ar unrhyw un o'r seiliau uchod. I'r perwyl hwn, mae gan y sefydliad Bolisi Cydraddoldeb, ac mae pob cyflogai'n gyfrifol am gyfrannu at ei lwyddiant. |
| **Iechyd a Diogelwch** |
| Mae gan holl gyflogeion y sefydliad ddyletswydd gofal statudol am eu diogelwch personol nhw eu hunain a diogelwch personol eraill y gall eu gweithredoedd neu eu hanweithredoedd effeithio arnynt. Mae'n ofynnol i ddeiliad y swydd gydweithredu â'r rheolwyr er mwyn galluogi'r sefydliad i gyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol ei hun a rhoi gwybod am unrhyw sefyllfaoedd peryglus neu offer diffygiol. Rhaid i ddeiliad y swydd gydymffurfio â pholisïau Rheoli Risg; Iechyd a Diogelwch; a pholisïau cysylltiedig y sefydliad. |
| **Gwiriadau Diogelwch** |
| Rhaid i'r holl gyflogeion gael gwiriadau diogelwch cychwynnol fel rhan o'u camau gwirio cyn cyflogaeth. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys profi pwy ydynt a phrawf o'u cymwysterau. Yn ogystal, rhaid i'r holl staff mewn rolau cymwys gael eu fetio o safbwynt diogelwch i lefel ddiogelwch CTC (gwiriad gwrthderfysgaeth). |
| **Urddas yn y Gwaith** |
| Mae'r sefydliad yn condemnio pob math o fwlio ac aflonyddu ac mae'n mynd ati'n weithredol i geisio hybu gweithle lle mae cyflogeion yn cael eu trin yn deg a chydag urddas a pharch heb ragfarn. Gofynnir i'r holl staff roi gwybod i'w Rheolwr Llinell neu i unrhyw Gyfarwyddwr y sefydliad am unrhyw fath o fwlio ac aflonyddu. Ni chaiff unrhyw ymddygiad amhriodol yn y gweithle ei oddef a chaiff ei drin fel mater difrifol o dan bolisi Urddas yn y Gwaith Archwilio Cymru. |

| Cyffredinol |
|---|
| **Cymraeg** |
| Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y Gymraeg yn ein gwaith ac ein nod yw darparu gwasanaeth dwyieithog i bawb y maent arnynt eisiau ei ddefnyddio. Felly, hoffem yn arbennig annog ceisiadau gan unigolion sydd â sgiliau yn y Gymraeg i'n helpu i gyrraedd y nod hwn. Bydd pob swydd-ddisgrifiad yn nodi a yw'r gallu i siarad Cymraeg yn ofyniad hanfodol ynteu ddymunol. Os byddwch yn llwyddiannus a chithau heb sgiliau iaith Gymraeg ar hyn o bryd, gallwn roi cymorth i chi ddysgu Cymraeg os ydych yn dymuno. |

| Gofyniad | Hanfodol neu Ddymunol |
|---|---|
| **1. Cymwysterau** | |
| 1.1 120 o bwyntiau UCAS o gymwysterau tair gradd Safon Uwch lawn (A2) uwch neu gymwysterau cyfatebol | Hanfodol |
| 1.2 Lefel Gradd – o leiaf 2:1 neu o leiaf 2:2 pan fo gan yr ymgeisydd gymwysterau ôl-raddedig ychwanegol e.e. gradd Meistr | Hanfodol |
| 1.3 O leiaf 5 TGAU (Gradd A*-C), gan gynnwys Mathemateg gradd B neu uwch ac Iaith Saesneg gradd C neu uwch | Hanfodol |
| **2. Sgiliau a Galluoedd** | |
| 2.1 Deall rôl a swyddogaeth y sector cyhoeddus yng Nghymru, yr heriau y mae'n eu hwynebu ar hyn o bryd a'r amgylchedd gwleidyddol cysylltiedig. | Dymunol |
| 2.2 Deall rôl yr archwilydd sector cyhoeddus wrth ddal gwasanaethau cyhoeddus i gyfrif a hybu gwelliant ynddynt. | Dymunol |
| 2.3 Bod yn holgar ei natur, gyda meddylfryd chwilfrydig, yn hyderus i herio a chael ei herio ond mewn ffordd broffesiynol | Hanfodol |
| 2.4 Sgiliau rheoli amser cryf, gan gynnwys ymwneud ag archwiliadau lluosog ar yr un pryd gan gydbwyso'r hyn a ddysgwyd o ran ICAEW. | Hanfodol |
| 2.5 Dangos cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig effeithiol ac ysgrifenedig gan gynnwys gwrando'n weithredol a chyflwyno gwybodaeth yn glir, yn gryno ac yn gywir. | Hanfodol |
| 2.6 Cyflwyno delwedd hyderus a phroffesiynol, bod â'r gallu i ddatblygu a chynnal perthynas waith gadarnhaol a phroffesiynol gyda swyddogion cyrff archwiliedig a chydweithwyr Archwilio Cymru fel ei gilydd. | Hanfodol |
| 2.7 Sgiliau dadansoddi da a'r gallu i ddangos barn broffesiynol gadarn. | Hanfodol |
| 2.8 Bod yn hyderus ac yn gyfforddus yn gweithio gyda data ac wrth ei ddadansoddi. | Hanfodol |
| 2.9 Y gallu i fod yn drylwyr iawn gan weld y darlun mwy ar yr un pryd | Hanfodol |
| 2.10 Dangos hyfedredd mewn sgiliau digidol gan gynnwys cymwysiadau meddalwedd MS Office fel Teams, Word ac Excel a bod yn agored i ddysgu sgiliau digidol newydd a pherthnasol. | Hanfodol |
| 2.11 Bod â'r gallu i greu syniadau, cynghori a chefnogi ffurf gwaith archwilio perfformiad. | Dymunol |

| 3. Nodweddion personol | |
|---|---|
| 3.1 Yn gallu dangos cymhelliant ac ymrwymiad i ddod yn gyfrifydd ac wedi ymrwymo i weithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. | Hanfodol |
| 3.2 Yn gallu dangos hunanymwybyddiaeth a pharodrwydd i ddysgu o brofiad, gan gaffael a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau newydd a pherthnasol yn barhaus. | Hanfodol |
| 3.3 Yn gallu dangos cydnerthedd er mwyn cydbwyso'r gofynion o weithio ochr yn ochr â hyfforddiant proffesiynol | Hanfodol |
| 3.4 Bod yn chwaraewr tîm llawn cymhelliant | Hanfodol |
| 3.5 Bod yn hyblyg ac addasadwy yn wyneb blaenoriaethau/heriau sy'n newid. | Dymunol |
| 3.6 Yn gallu gweithredu ar ei liwt ei hun ond yn gwybod pryd i geisio goruchwyliaeth ac arweiniad gan gydweithwyr. | Dymunol |
| 3.7 Ymagwedd ragweithiol at eich gwaith a'ch astudiaethau, gan gymryd perchnogaeth ac atebolrwydd clir am ddysgu a'ch rhaglen waith eich hun. | Hanfodol |
| **4. Cyffredinol** | |
| 4.1 Hunanymwybodol ac yn esiampl ar gyfer gwerthoedd ac ymddygiad Archwilio Cymru | Hanfodol |
| 4.2 Yn ymwybodol ac wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth | Hanfodol |
| 4.3 Yn ymwybodol ac wedi ymrwymo i'r trefniadau ar gyfer iechyd a diogelwch | Hanfodol |

| Sgiliau'r Gymraeg | | |
|---|---|---|
| **Maes sgil** | **Hanfodol** | **Dymunol** |
| **Siarad a Gwrando** | Cyfarch eraill dros y ffôn neu'n bersonol â chyfarchiad Cymraeg syml a throsglwyddo galwad mewn modd sensitif i siaradwr Cymraeg pan fo'n briodol | Gwrando ar gyfarfodydd, trafodaethau a galwadau ffôn cyfrwng Cymraeg ar faterion syml, ond cyfrannu yn Saesneg ar gyfer materion mwy technegol a chymhleth. |
| **Darllen** | Defnyddio meddalwedd cyfieithu i ddeall gohebiaeth syml gan ddeall ei allu cyfyngedig | Darllen erthyglau newyddion cyfrwng Cymraeg, adroddiadau byrion a'r cyfryngau cymdeithasol i ddatblygu gwybodaeth mewn maes |
| **Ysgrifennu** | Diweddaru dogfennau a gohebiaeth â dyddiadau a thermau generig eraill yn Gymraeg | Ysgrifennu gohebiaeth syml a chynnwys syml ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg gyda chymorth gwirydd sillafu a gramadeg Cymraeg. |